

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**  
**22 TACHWEDD 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Gwener, 22 Tachwedd 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Sian Braun, Jean S Davies, Ron Davies, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Ray Hughes, Kevin Rush, Paul Shotton a Dave Wisinger.

**DIRPRWYON:** Y Cyngorwyr: Ron Davies (ar ran Dennis Hutchinson) a Patrick Heesom (ar ran Brian Lloyd)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorwyr: Dave Hughes a Ted Palmer

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cyngorwyr: Veronica Gay a Christine Jones yn mynychu fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi); Cyngorydd Derek Butler (Aelod Cabinet Datblygiad Economaidd); Rheolwr Cyllid, Gwasanaethau Cymunedol; Rheolwr Gwasanaeth Rhaglen Dai a Rheolwr Budd-daliadau.

Rheolwr Cyllid Strategol a Rheolwr Cyllid (Amgylchedd) ar gyfer cofnod rhif 25.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter.

**SYLWADAU AGORIADOL**

Darllenodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddatganiad ar gyfyngiadau sy'n ymwneud â thrafodaethau mewn cyfarfodydd yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad presennol.

**24. DATGAN CYSYLLTIAD**

Nid oedd unrhyw un yn datgan cysylltiad.

**25. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG: CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2020/21**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad ar effeithlonrwydd cyllideb arfaethedig a phwysau costau Cymuned a Menter tra'n cwblhau'r gwaith ar ddewisiadau cyllid corfforaethol a phenderfyniad ar gyllideb Llywodraeth Cymru (LIC). Roedd LIC wedi cadarnhau yn ddiweddar y byddent yn cyhoeddi cyllideb drafft Cymru ar 16 Rhagfyr gyda'r Setliad Dros Dro yn cael ei gyhoeddi ym diwrnod. Rôl y Cyngor fyddai cwblhau'r broses setlo'r gyllideb yn ei gyfarfod yn Ionawr-Mawrth.

Dywedodd y Cyngorydd Patrick Heesom ei fod yn gobeithio y byddai setliad dros dro buddiol yn dod gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn codi pryderon

am unrhyw gynnydd yn y rhagdybiaeth gwaith ar Dreth y Cyngor a dywedodd ei fod yn credu fod llawer o Aelodau yn teimlo na ddylid ystyried unrhyw gynnydd uwch na 5%. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod 5% yn ffigwr gwaith yn unig gan Lywodraeth Cymru ac nad oedd y Cyngor wedi gwneud penderfyniad ffurfiol ar lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Ray Hughes a'u heilio gan y Cynghorydd Ron Davies.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynigion effeithiolrwydd Cymuned a Menter ar gyfer 2020/21; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r pwysau cost Cymuned a Menter a argymhellwyd i'w cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21.

#### **26. CYNLLUN BUSNES CARTREFI GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU 2019/2048**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Rhaglen Tai Gynllun Busnes Tai Gogledd Ddwyrain Cymru, oedd yn nodi elfennau allweddol Strategaeth Ddatblygu arfaethedig y cwmni i gynyddu'r nifer o eiddo rhent fforddiadwy i'w cyflawni dros y tair blynedd nesaf i 207 o unedau.

Roedd y prif elfennau a amlygwyd i'r Pwyllgor, fel y manylwyd o fewn yr adroddiad, yn ymwneud ag:-

- Unedau Rhodd;
- Partneriaethau Strategol gyda Datblygwyr Lleol a Chymdeithasau Tai; a
- Defnyddio tir sy'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint

Gofynnodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin am ddiweddariad ar y rhaglen adeiladu tai ar hen safle Depo Canton. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Rhaglen Dai eu bod yn aros am yr adroddiad System Draenio Cynaliadwy (SuDS) er mwyn penderfynu faint o eiddo fyddai'r Cyngor yn gallu eu hadeiladu ar y safle. Roedd y Cyngor wedi clustnodi 50 eiddo ar gyfer y safle i ddechrau a gobeithio y byddai gwaith yn dechrau ar y safle ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yna gyfle i'r Cyngor fod yn berchen ar y fflatiau newydd a ddatblygwyd yn adeilad y Swan, Cei Connah. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth Rhaglen Tai i edrych i mewn i hyn ar ôl y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd Patrick Heesom yn canmol y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn cael ei reoli. Gofynnodd pam bod y Cynllun Busnes tan 2048 a pha un a oedd y cynnydd mewn ardrethi busnes gan y Bwrdd Benthyciadau Cyhoeddus wedi effeithio ar y Cynllun Busnes. Hefyd gofynnodd am sicrwydd y byddai eiddo'r Cyngor yn parhau'n eiddo i'r Cyngor. Eglurodd y Rheolwr Cyllid, Gwasanaethau Cymunedol fod y Cynllun Busnes ar waith tan 2048 o ganlyniad i ddull ad-dalu maith y cynllun. Ar y cynnydd mewn cyfraddau llog, roedd pob cynllun newydd yn cael ei brofi i sicrhau lled y gwall os digwydd i gyfraddau llog godi heb achosi unrhyw broblemau i'r cynlluniau. Roedd y Prif Swyddog (Tai ac

Asedau) yn sicrhau'r Pwyllgor y byddai holl eiddo'r Cyngor yn parhau yn eiddo i'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Ron Davies am ymweliad safle a drefnwyd yn ddiweddar i'r Pwyllgor i Garden City a llongyfarchodd Wates, y contractwyr am y gwaith a wnaed.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Ron Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Paul Shotton.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnydd a wnaed drwy ddarparu'r Cynllun Busnes Cartrefi Newydd 2019/2048.

## **27. CYNLLUN Y CYNGOR 2019/20 – ADRODDIAD MONITRO CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad i gyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer sefyllfa diwedd y flwyddyn 2018/19 blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 'Cyngor Cefnogol' a 'Cyngor Uchelgeisiol' oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn adroddiad am eithriadau ac felly'n canolbwyntio ar y meysydd a oedd yn tan-berfformio.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet Datblygu Economaidd yn rhoi diweddariad ar y nifer o unigolion a gefnogwyd drwy'r gwasanaeth mentora oedd yn dechrau gweithio, dysgu neu wirfoddoli, gan egluro er bod perfformiad presennol o dan y targed, roedd swyddogion yn hyderus ei bod yn bosibl cyflawni targed blwyddyn lawn. Roedd y gwasanaeth yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn codi pryderon am yr ansicrwydd am lefel cyllid a dderbyniwyd o un flwyddyn i'r llall.

Gofynnodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin pam bod y dangosyddion perfformiad ar gyfer canran aelwydydd yn y chwarter lle roedd digartrefedd wedi'i atal a'r lefel bodddhad tenant yn dangos yn oren ac nid gwyrdd. Eglurodd y Prif Swyddog bod y targedau a osodwyd am y flwyddyn yn uwch na'r cyflawniad presennol ond byddent yn parhau i gael eu monitro i sicrhau y cyflawnir targedau. Dywedodd am yr heriau oedd yn ymwneud ag ymgysylltu â'r sector rhentu preifat oedd yn gyndyn i roi llety i bobl oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol ond dywedwyd bod sioe deithiol gyda 40 landlord preifat wedi'i threfnu a chytunodd i roi adborth i'r Pwyllgor maes o law ar lwyddiant y sioe deithiol.

Roedd y Cynghorydd Patrick Heesom yn croesawu'r adroddiad. Dywedodd am y nifer o fusnesau a gefnogwyd drwy'r ganolfan ranbarthol a mynegodd bryderon nad oedd y ganolfan ar waith ar hyn o bryd. Hefyd dywedodd y dylai'r prosiectau oedd yn cael eu gweithredu gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar hyn o bryd gynnwys rhanbarth Sir y Fflint cyfan ac nid canolbwyntio ar Lannau Dyfrdwy yn unig. Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) rôl 6 Swyddog Datblygu Economaidd Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a dywedodd am eu dylanwad ar rôl y ganolfan ranbarthol drwy eu cysylltiadau gyda busnesau lleol. Drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru byddai yna bedwar Cyd-bwyllgor yn cynnwys

Addysg, Cludiant ar lefel ranbarthol, Cynllunio Strategol a Datblygu Economaidd a fyddai'n adeiladu ar waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin a'i eilio gan y Cynghorydd Ron Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

**28. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 2.40 pm)

.....  
**Y Cadeirydd**